



Peter Fox AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

seneddiechyd@senedd.cymru

24 Chwefror 2025

Annwyl Peter,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror ynglŷn ag ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor ynghylch gwasanaethau offthalmoleg yng Nghymru.

Fel y nodwyd yn ein hymateb, mae cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni drwy lwybrau clinigol wedi'u cryfhau, integreiddio gwell rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd a diwygiadau i wasanaethau optometreg sydd wedi'u cynllunio i symud mwy o ofal i'r gymuned.

Mae'r camau gweithredu hyn yn ganolog i'n dull gweithredu ar gyfer lleihau'r pwysau ar wasanaethau ysbytai a gwella canlyniadau pobl.

Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y pwyllgor o'r gwaith sy'n mynd rhagddo a'r cynnydd sy'n cael ei wneud, gan hefyd gydnabod bod rhagor o waith i'w wneud o hyd. Yn y cyd-destun hwnnw, a chan adlewyrchu'r rhaglen gyflawni barhaus a nodir yn ein hymateb, gweler yr atebion a ganlyn i gwestiynau dilynol y pwyllgor.

1. O ystyried rhybudd y Pwyllgor bod angen gweithredu ar frys i atal achosion y gellid eu hosgoi o golli golwg, pam nad yw eich ymateb yn cynnwys unrhyw fesurau uniongyrchol neu dros dro i'w cymryd cyn i'r trefniadau llywodraethu newydd fod ar waith?

Y Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg yw'r cynllun manwl hirdymor sy'n darparu cyfeiriad strategol ar gyfer gwella gwasanaethau offthalmoleg. Ceir angen brys i sicrhau yr ymdrinnir â cholli golwg y gellir ei atal, fodd bynnag, cydnabyddir bod rhoi ar waith y cynllun manwl hirdymor yn hanfodol i lwyddiant y gwaith cyflawni cynaliadwy yng Nghymru.

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyllgor yn canolbwyntio ar sefydlu'r trefniadau llywodraethiant gofynnol i gyflawni'r strategaeth glinigol genedlaethol oherwydd bod hyn yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hanfodol ar gyfer dull gweithredu system gyfan a chynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu sydd i'w cyflawni ar unwaith wedi'u hoedi.

Mae gwelliannau gweithredol sylweddol yn cael eu cyflawni ledled Cymru:

- Mae nifer yr arosiadau hir o fwy na 104 o wythnosau wedi lleihau 97% ers 2023, a hynny yn sgil cymorth ymyriadau cenedlaethol wedi'u targedu.
- Mae capasiti ychwanegol ar gyfer cyflawni triniaethau cataract yn cael ei gomisiynu, ac mae sawl bwrdd iechyd wedi sefydlu hybiau cataract sy'n gallu ymdrin â nifer o gleifion yn seiliedig ar y gwaith o ailgynllunio llwybrau a gefnogir gan y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Offthalmoleg. O ganlyniad i'r ehangu hwn, mae Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni tua 37,000 o driniaethau cataract eleni - cynnydd o 20,000 o'i gymharu â llinell sylfaen 2023/24 o tua 17,000 o driniaethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno.
- Mae'r gwaith o weithredu WGOS (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru) 4 a 5 yn parhau ledled Cymru, gan ryddhau capasiti gofal eilaidd ar gyfer y cleifion risg uchaf.
- Mae'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Offthalmoleg yn cyflawni elfennau o'r strategaeth glinigol genedlaethol, gan gynnwys llwybrau clinigol Cymru gyfan, disgrifiadau swyddi safonol ar gyfer rolau allweddol ym maes gofal llygaid, a chydweithio i fanteisio i'r eithaf ar gapasiti llawfeddygol.

Mae gwelliannau yn parhau yn ddi-oed wrth i'r strwythur llywodraethiant newydd gael ei gwblhau.

2. Gan na ddisgwylir i ddiwygiadau llywodraethu gael eu cwblhau tan fis Ebrill 2026, pa drefniadau fydd ar waith yn y cyfamser i sicrhau atebolrwydd a chynnydd mewn meysydd fel cyflwr ystadau ac amnewid offer, er mwyn atal dirywiad pellach?

Er y bydd y trefniadau llywodraethiant diwygiedig yn cael eu cwblhau ym mis Ebrill, mae trefniadau atebolrwydd dros dro eisoes ar waith.

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i graffu ar ystadau ac offer drwy brosesau perfformiad a sicrwydd cyfalaf sefydledig.
- Mae Perfformiad a Gwellu GIG Cymru yn cryfhau gweithdrefnau goruchwyllo gweithredol drwy'r Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Offthalmoleg a'r byrddau rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg.
- Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am gynnal amserlenni amnewid offer rheolaidd a rhaid iddynt flaenoriaethu offthalmoleg yn eu cynlluniau blynyddol.

Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau nad yw risgiau yn dirywio wrth i'r strwythurau newydd gael eu cwblhau.

3. Mae eich ymateb yn nodi'r "amserlen uchelgeisiol a graddfa'r newid sydd ei angen" wrth gyflawni'r Rhaglen Gofal Llygaid Digidol. Beth yw'r tebygolrwydd presennol o gadw at y dyddiad cau ar gyfer gweithredu ym mis Mawrth 2026?

Mae pob bwrdd iechyd wedi cael cyfarwyddyd bod trawsnewid digidol ym maes gofal llygaid yn flaenoriaeth genedlaethol ac mae gweithgarwch ar gyfer gweithredu wedi cyflymu'n sylweddol ers ailosod y Rhaglen Gofal Llygaid Digidol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cwblhau'r gwaith cyflwyno ar draws pob is-arbenigedd, ac mae byrddau iechyd cyfagos yn bwrw ymlaen â'r llwybrau cyflwyno tactegol.

Bydd sicrwydd ffurfiol pellach ar gael ddiwedd mis Chwefror. Yn seiliedig ar y cynnydd presennol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod amserlen Mawrth 2026 yn un y gellir ei chyflawni gan ganolbwyntio a chydweithio'n barhaus ledled GIG Cymru.

4. Yng ngoleuni pwysigrwydd rhaglenni digidol, a'r oedi a'r pwysau o ran cost sy'n effeithio ar OpenEyes, a wnewch chi ailystyried darparu datganiad llafar i sicrhau craffu cyhoeddus llawn ar y risgiau o ran cyflawni?

Ar hyn o bryd, mae adrodd ar gynnydd yn digwydd drwy'r Bwrdd Arweinyddiaeth Digidol a Data sefydledig, Perfformiad a Gwellu GIG Cymru, a thrwy oruchwyliaeth uniongyrchol gan Weinidogion.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig os daw risgiau neu oedi sylweddol i'r amlwg.

5. Mae eich ymateb yn nodi bod protocol safonol ar gyfer adrodd am niwed eisoes ar waith, a bod hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan Berfformiad a Gwelliant y GIG. A allwch chi nodi pryd yr ydych yn disgwyl i ddatblygiad yr hyfforddiant hwnnw gael ei gwblhau, a'r amserlen ar gyfer ei gyflwyno? A allwch chi hefyd nodi eich disgwyliadau cydymffurfio?

Mae dull adolygu niwed cenedlaethol ar gyfer offthalmoleg ar waith ac mae'r dull hwn wedi'i gryfhau drwy waith o dan arweiniad y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Offthalmoleg. Yn ystod 2025-26, datblygodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fodel adolygu niwed strwythuredig ar gyfer cleifion offthalmoleg sy'n aros yn hir, a'i roi ar waith. Yn dilyn ymwneud â'r bwrdd iechyd, gwnaeth y Rhwydwaith gydnabod y model hwn yn enghraifft o arfer orau ac mae wedi rhannu'r model ar draws GIG Cymru.

Mae'r Rhwydwaith wedi ymgorffori disgwyliadau penodol o ran adolygu newid yn y Fframwaith Optimeiddio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gynnal adolygiad o niwed ar gyfer unrhyw is-arbenigedd neu lwybr lle y mae'r arosiadau yn afresymol o hir. Mae hefyd yn nodi y dylid cynnal archwiliadau niwed ar hap bob chwe mis, gan gynyddu'r amllder pan fo risgiau penodol neu hysbys yn dangos bod angen lefel uwch o oruchwyliaeth.

Bydd y Fframwaith Optimeiddio wedi'i ddiweddarau yn cael ei ddyroddi erbyn mis Mawrth 2026, gyda chydymffurfiaeth yn cael ei monitro drwy'r cylch hunanasesu bob chwe mis. Yn dilyn cwblhau pob ffurflen hunanasesu, bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd gyflwyno i'r Rhwydwaith y dysgu o'u hadolygiadau niwed lleol. Cynhelir y cyntaf ym mis Mai.

Mae Perfformiad a Gwellu GIG Cymru yn parhau i ddatblygu hyfforddiant i gefnogi'r gwaith o gymhwyso'r fethodoleg adolygu niwed mewn modd cyson a'i wneud, maes o law, yn gydnaws â'r diwygiadau *Gwrando ar Bobl* ehangach. Unwaith y bydd amserlenni wedi'u cwblhau, bydd byrddau iechyd yn cael gwybod amdanynt gan gynnwys disgwyliadau clir o ran eu mabwysiadu.

Bydd cydymffurfiaeth â'r dull adolygu niwed wedi'i gryfhau yn cael ei hategu drwy:

- Ymgorffori dangosyddion adolygu niwed yn nhrefniadau monitro Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig rheolaidd;
- Goruchwyliaeth barhaus gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru i sicrhau bod diffiniadau a methodoleg y cytunwyd arnynt yn cael eu cymhwyso'n gyson.

Caiff niwed a achosir gan oedi ei nodi a'i uwchgyfeirio drwy'r fframwaith *Gweithio i Wella* sefydledig a Datix, gan roi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddigwyddiadau difrifol yn unol â'r polisi cyfredol.

6. Nid yw eich ymateb yn mynd i'r afael ag argymhellion 13, 14, 16 a 17, gan nodi bod AaGIC yn y sefyllfa orau i ddarparu diweddariadau ac ymatebion ar faterion sy'n ymwneud â hyfforddiant, cynllunio'r gweithlu a strategaethau gweithlu trawsbroffesiynol. Rydym wedi ysgrifennu at AaGIC am ei ymateb, ond gofynnwn pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyllid ar gyfer lleoedd hyfforddi ychwanegol yn cael ei sicrhau?

Bydd argymhellion Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) sydd ar ddod ynghylch ehangu hyfforddiant offthalmoleg yn cael eu hystyried drwy brosesau sefydledig Llywodraeth Cymru o ran cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu.

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn darparu gweithdrefn wedi'i chryfhau ar gyfer cysoni'r canlynol:

- Modelu gweithlu AaGIC;
- Gwybodaeth gan y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Offthalmoleg ynghylch yr angen am wasanaethau;
- Capasiti byrddau iechyd a gofynion goruchwyllo.

Mae dadansoddiad byr o'r gweithlu a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith eisoes wedi darparu gwybodaeth i fyrddau iechyd am bwysau cenedlaethol, a bydd hyn yn cael ei ategu gan adolygiad strategol o'r gweithlu gan AaGIC. Bydd penderfyniadau cyllido yn cael eu gwneud unwaith y caiff y darlun cyflawn o'r gofynion ei gadarnhau.

7. O ystyried pwysigrwydd strategol y materion a godwyd, a bod Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at bwysau ar y gweithlu fel her allweddol wrth ddarparu gwasanaethau offthalmoleg, pam na wnaethoch chi ymateb yn uniongyrchol i'r argymhellion hyn? Edrychaf ymlaen at glywed gennych ynglŷn â'r mater pwysig iawn hwn.

Mae'r argymhellion rydych chi'n cyfeirio atynt yn rhan ffurfiol o gylch gwaith statudol AaGIC ar gyfer cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Am y rheswm hwnnw, mae'n briodol i AaGIC ddarparu'r ymateb gweithredol manwl.

Mae capasiti'r gweithlu yn un o elfennau canolog y Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Offthalmoleg, a chaiff goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ei arfer drwy sawl llwybr, gan gynnwys y llythyr cylch gwaith i AaGIC, trefniadau llywodraethiant Perfformiad a Gwella GIG Cymru, y Rhwydwaith Gweithredu Clinigol Offthalmoleg, a'r broses Cynllun Addysg a Hyfforddiant flynyddol.


Trwy'r gweithdrefnau hyn, mae gwaith AaGIC o ran modelu'r gweithlu, argymhellion ar gyfer ehangu hyfforddiant, a chanlyniadau gwaith cynllunio'r gweithlu trawsbroffesiynol yn llywio'n uniongyrchol benderfyniadau ariannol Llywodraeth Cymru a blaenoriaethu cenedlaethol.

Mae'r strwythurau hyn yn sicrhau bod cynigion AaGIC a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Llywodraeth yn gydnaws â'i gilydd, gan gynnwys cyllid yn y dyfodol ar gyfer lleoedd hyfforddi ychwanegol.

Er mai AaGIC sydd yn y sefyllfa orau i ateb y manylion gweithredol penodol y gofynnwyd amdanynt gan y pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal goruchwyliaeth strategol ac yn gyfrifol am sicrhau y gellir datblygu a chynnal y gweithlu y mae ei angen i gyflawni'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau'r GIG, cyrff proffesiynol, a phartneriaid eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of loops and a horizontal line.

Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care